ond tybed oes modd dyfalu fod John Wilson wedi marw'n weddol fuan ar ôl ymddeol, ym Mhenegoes efallai neu yng nghanol teulu ei wraig yn Yr Wyddgrug, a bod teulu ei wraig, teulu Wynne Coed-llai, wedi gofalu am y teulu amddifad. Gallwn nodi'n awr mai Syr George Wynne, Coed-llai, oedd y Syr George Wynne a dalodd am addysg Richard Wilson yn Llundain. Dyma'r Syr George Wynne, 1700-1756, hynod gyfoethog a grewyd yn farwnig yn 1731 ac a etholwyd yn Aelod Seneddol Bwrdeistref Fflint yn 1734. Dywedir fod y gwaith mwyn ar ei dir wedi sicrhau incwm blynyddol o £22,000 y flwyddyn iddo rhwng tua 1725 a 1745! Nid yw'n eglur beth yn union oedd Syr George Wynne yn berthyn i Richard Wilson.

* * * *

WEDI bod gyda Thomas Wright am rai blynyddoedd yr oedd Wilson yn barod i ddechrau ennill ei fara beunyddiol trwy lunio portreadau. Mae'n ymddangos mai yn ardal Covent Garden yr oedd ei gartref yn Llundain. Os felly efallai iddo fod yn bresennol mewn perfformiad cynnar yno o'r 'Messiah' gan Handel yn 1741. Trwy berthnasau bonheddig ei dad a'i fam daeth i gysylltiad â theuluoedd a fedrai dalu am bortreadau. Ceir y cofnod hwn yng nghyfrifon Castell y Waun am 23 Rhagfyr 1738:

> *Paid Richd Wilson for a drawing in a Gilt frame of myself (Robert Myddleton) £6-16-6.*

Gellir rhestru Richard Owen, ynysmaengwyn, Sir Feirionnydd, a Syr Edward Lloyd, Pengwern, ymysg y Cymry amlwg a bortreadwyd ganddo yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn ei yrfa. Mae'r ddau lun yma ym meddiant Amgueddfa Genedlaethol Cymru erbyn heddiw. Tua'r un cyfnod peintiodd nifer o ddarluniau o'r tywysog Siôr (Siôr III wedi hynny) a'r dug Efrog ac roedd yn adnabod Hogarth a Gainsborough yn dda.

Yn Hydref 1750 aeth Wilson ar daith arlunio i Fenis ac yna ymlaen i Rufain, roedd yno erbyn diwedd 1751. Tra yn Rhufain daeth yn un o gyfeillion Anton Rafael Mengs. Fe beintiodd Mengs bortread o Wilson yn 1752. Gwerthodd Wilson y llun hwn i Syr Watkin Williams Wynn yn ddiweddarach. Mae'n ddiddorol nodi fod y llun wedi ei brynu ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn 1947 ac mai yno y mae o hyd.

Tra yn yr Eidal dechreuodd Wilson ganolbwyntio ar wneud darluniau natur a dyna nodweddodd weddill ei yrfa fel artist. Mae'n wir iddo barhau i gynhyrchu rhai portreadau hefyd, fel y portread o Rowland Jones, 1722-1774, yr ysgolhaig a'r ieithydd o ardal Llanbedrog, a wnaeth yn 1757, sef y flwyddyn y dychwelodd i Loegr ac ymsefydlu yn Llundain unwaith eto.

Yn 1759 roedd Wilson yn un o sylfaenwyr yr Incorporated Society of Artists. Rhwng 1760 a 1768 dangosodd 36 o ddarluniau yn arddangosfa flynyddol y Gymdeithas. Gan ei fod bellach yn arlunydd o fri ei dro ef yn awr oedd derbyn disgyblion yn yr un modd â Thomas Wright gynt. Un o'r disgyblion ifanc a ddaeth ato yn 1763 a thalu hanner can gini am ddwy flynedd o addysg oedd un Thomas Jones, 1742-1803, a ddaeth yn adnabyddus yn ddiweddarach fel Thomas Jones, Pencerrig. Yna yn 1768 yr oedd Wilson ymhlith y 34 o arlunwyr a sefydlodd y Royal Academy. Mae'n werth nodi fod 30 darlun o'i waith wedi eu harddangos yno rhwng 1769 a 1780.

* * * *

DYMA ddetholiad byr o ddyfyniadau allan o ddyddiadur Thomas Jones, Pencerrig, sydd yn taflu goleuni diddorol ar Wilson fel athro arlunio:

> *'I had been for some Months looking out for a proper Master who I wished to pursue my future Studies, and Captain Baillie . . . had applied in my Behalf to some of the most eminent — but either they insisted on my serving so long an Apprenticeship, or demanded such exorbitant Terms, that neither of their Proposals suited my Situation and Circumstances. The above Gentleman meeting with so little success among the Portrait Painters, asked me if I had any Inclination to Landscape? I told him my natural bias was to that branch of the profession. Accordingly in March 1763 he introduced me to Mr Richard Wilson then residing in Covent Garden and we soon agreed upon Terms of Pupillage.*
>
> *The characteristick Beauties of this great Master I was quite blind to . . .*
>
> *My Bargain with Wilson was to give him fifty Guineas for two years. The first year I was to be confined entirely to making drawings with black and white chalks on paper of a Middle Tint, either from his Studies and Pictures, or from Nature. This, he said, was to ground me in the Principles of Light and Shade, without being dazzled and misled by the flutter of Colours. He did not approve of tinted Drawings and consequently did not encourage his Pupils in the practices, which he said hurt the Eye for fine Colouring.*
>
> *Wilson had such an original turn of thinking, and a mode of expressing his Ideas so peculiarly his own, that he provoked Mirth without intending it.*
>
> *It would have been better indeed, if there had been more Restraint upon us all, too much time that ought to have been dedicated to Study, being squandered away in idle mirth and frolick. And when our Master surprised us at our gambols, he only shook his head and, in his dry laconick manner, said 'Gentlemen, this is not the way to rival Claude'.*
>
> *In March 1765 my Term with Mr Wilson expired and I was in 1766 elected member of the incorporated Society of Artists of Great Britain.*


* * * *

LLUNIAU cywir-ddisgrifiadol oedd cyfran helaeth o'r lluniau a arddangoswyd gan Wilson rhwng 1760 a 1780. Yr oedd yna farchnad dda i'r darluniau hyn ymhlith perchnogion plastai a thiroedd ac mae'n werth cofio fod arlunwyr topograffig y ddeunawfed ganrif wedi cyflwyno i ni gryn dipyn o wybodaeth hanfodol am diroedd ac adeiladau'r cyfnod. Bu Wilson yn teithio yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru yn ystod y blynyddoedd hyn ac fe gynhyrchodd ddarluniau o olygfeydd yn siroedd Fflint, Dinbych, Arfon, Meirion, Maldwyn, Ceredigion, Penfro, Morgannwg a Mynwy. Mae'n amlwg o'i waith fod yna le arbennig i afonydd, mynyddoedd a chestyll Cymru yn ei galon. Mae'n amlwg hefyd ei fod wedi teithio'n helaeth yng Nghymru tra'n llunio'r gweithiau hyn ac mai ffrwyth taith i ogledd Cymru, i ymweld â'i berthnasau efallai, oedd y ddwy olygfa yng nghyffiniau Holt ac Afon Dyfrdwy a arddangoswyd yn arddangosfa'r Society of Artists yn 1762. Yn 1771 arddangosodd lun o Gastell Dinas Brân a llun o olygfa ger Wynnstay yn arddangosfa'r Royal Academy. Mae'n ddiddorol nodi mai ffrwyth comisiwn a dderbyniodd gan Syr Watkin Williams Wynn (y pedwerydd farwnig a fu farw yn 1789) oedd y gweithiau hyn. Credir fod y ddau lun yma yn America erbyn heddiw. Maent yn lluniau mawr 69 modfedd wrth 93 modfedd a'r hyn sydd yn arbennig o ddiddorol ynglŷn â'r olygfa ger Wynnstay yw fod Syr Watkin wedi codi pabell ar ei dir i Wilson weithio ynddi tra'n paratoi'r llun.

Ymysg papurau Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y mae yna ddwy ddogfen yn llaw Wilson. Mae'r gyntaf wedi ei dyddio 5 Chwefror 1770 ac yn nodi:

> *'Recd. of Sir Watkin Williams Wynn Bart the sum of fifty pounds on acct of two Large Landsk(ips) now in hand by me.*
> *Richd. Wi(lson) £50.0.0.'*

Dyma ran o gynnwys yr ail ddogfen:



*Golygfa ger Pencerrig ym mhlwyf Llanelwedd, cartref Thomas Jones (1742-1803) o waith Jones ei hun. Cyhoeddwyd y graflun hwn gan James Baker (fl.1791-1802) yn ei* A Picturesque Guide through Wales and the Marches . . . *yn 1795.*